# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

**RHAN 5**

CYFFREDINOL

**47 Rheoliadau o ran yr unigolion y caniateir iddynt gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol a gweithredu fel cydgysylltwyr gofal**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu ynghylch cymhwystra unigolion–

(a) i arfer swyddogaethau partner iechyd meddwl lleol er mwyn cynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol o dan adran 9;

(b) i gael eu penodi'n gydgysylltwyr gofal o dan adran 14.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu ynghylch y materion canlynol o ran person–

(a) cymwysterau;

(b) sgiliau;

(c) hyfforddiant; neu

(d) profiad.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â chymhwystra unigolion i gynnal y cyfnod dadansoddi o ran asesiad iechyd meddwl sylfaenol o'i chymharu â'r ddarpariaeth a wneir o ran cymhwystra unigolion i gael eu penodi'n gydgysylltwyr gofal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 47 mewn grym ar 15.2.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 55(1)(2)**(b)

**I2** A. 47 mewn grym ar 6.6.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(x)**

**I3** A. 47 mewn grym ar 1.10.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(l)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 47.